

Cynnwys

Yr Wyddor Gymraeg a Defnyddio Geiriadur	2	Gwallau Cyffredin 2	22
Ansoddeiriau	4	Gwallau Cyffredin 3	24
Arddodiaid	6	Rhagenwau	26
Atalnodi	8	Rhifolion a Threfnolion	28
Brawddegau	10	Sillafu	30
Cwestiynau	12	Treigladd Meddal	32
Cymharu Ansoddeiriau	14	Y Fannod	34
Enwau	16	Y Ferf 1	36
Ffurfiâu Cryno'r ferf	18	Y Ferf 2	38
Gwallau Cyffredin 1	20	Y Treigladd Llaes	40
		Y Treigladd Trwynol	41



Yr wyddor Gymraeg

a b c ch d dd e f ff g ng h i ll m n o p ph r rh s t th u w y

Y cytseiniaid

b c ch d dd f ff g ng h i ll m n p ph r rh s t th

Y llafariaid

a e i o u w y

Rhaid defnyddio'r wyddor wrth

- chwilio am wybodaeth mewn llyfr cyfeirio
- chwilio am eiriau mewn geiriadur.

© Yn y Gymraeg, un llythyren ydy ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

© Wrth chwilio am air bydd 'ng' yn dod **ar ôl** 'g', nid ar ôl 'n', e.e. bydd 'angel' yn dod o flaen 'allwedd'.

Does dim 'j', 'k', 'z' yn yr wyddor Gymraeg draddodiadol ond erbyn hyn, mae 'j' yn cael ei gynnwys yn eithaf aml, e.e. 'jeli'.

Rhaid defnyddio

- 'a' o flaen cytseiniaid
- 'ac' o flaen llafariaid
- 'y' o flaen cytseiniaid heblaw am 'h'
- 'yr' o flaen llafariaid a 'h'
- 'r' ar ôl llafariaid

oren **a** banana afal **ac** oren

yn **y** tŷ yn **yr** ysgol yn **yr** haf

Mae'r bachgen... Roedd **y** bachgen yn mynd i'r tŷ.

© **ac** mae, **ac** mewn, **ac** mor, **ac** felly, **ac** fel, **ac** sydd, **ac** roedd, **ac** mai, **ac** meddai

Mae hi'n oer heddiw **ac** mae hi'n bwrw glaw.

© a hefyd, a heb
Bydd hi'n oer fory **a** hefyd bydd hi'n bwrw glaw.

Rhoi sglein ar
IAITH

YR WYDDOR
GYMRAEG

Y byrfoddau

a.	ansoddair	<i>adjective</i>	tlws
adf.	adferf	<i>adverb</i>	araf
ardd.	arddodiad	<i>preposition</i>	dan
b.	benywaidd	<i>feminine</i>	
be.	berfenw	<i>verb-noun</i>	canu
bf.	berf	<i>verb</i>	darllenodd
cys.	cysylltair	<i>conjunction</i>	neu
eb.	enw benywaidd	<i>feminine noun</i>	merch
e.e.	er enghraifft	<i>for example</i>	
eg.	enw gwrywaidd	<i>masculine noun</i>	bachgen
egb.	enw gwrywaidd neu fenywaidd (pan fo'n wrywaidd gan amlaf)	<i>masculine or feminine noun (most often masculine)</i>	cyngerdd
g.	gwrywaidd	<i>masculine</i>	
h.y.	hynny yw	<i>i.e.</i>	
ll.	lluosog	<i>plural</i>	
rhag.	rhagenw	<i>pronoun</i>	fi
un.	unigol	<i>singular</i>	

T.M.	treigladd meddal	<i>soft mutation</i>	y ferch
T.T.	treigladd trwynol	<i>nasal mutation</i>	fy nghi
T.Ll.	treigladd llaes	<i>aspirate mutation</i>	ci a chath

Pam mae'r byrfoddau'n bwysig?

I ddefnyddio gair rydyn ni'n ei weld mewn geiriadur yn gywir rhaid i ni ddeall y byrfoddau.

Dyma rai enghreifftiau i ddangos pam mae'n bwysig i ni wybod a yw enw'n wrywaidd neu'n fenywaidd, yn unigol neu'n lluosog.

- Mae 'y' yn achosi T.M. i eb.un. ond nid i eg.un. neu ell. e.e.
⇒ y ferch
⇒ y bachgen
⇒ y merched.
- Rhaid defnyddio 'hwn' ar ôl eg, 'hon' ar ôl eb. a 'hyn' ar ôl ell. e.e.
⇒ y ddesg hon
⇒ y bwrdd hwn
⇒ y cadeiriau hyn.
- Rhaid defnyddio rhifolion benywaidd gydag enwau benywaidd e.e.
⇒ **dw**y ddesg
⇒ **dau** fwrdd.

Rhoi sgleini ar
IAITH

DEFNYDDIO
GEIRIADUR

© Fel arfer, mae'r ansoddair yn dod **ar ôl enw neu ferfenw**, e.e.

- bachgen tal
- llyfrau diddorol
- addysgu blaengar

© Mae rhai ansoddeiriau'n dod **o flaen yr enw**, e.e.

- hen hen dŷ
- prif prif weinidog
- ambell ambell blentyn
- dirprwy dirprwy reolwr
- holl holl ysgolion
- hoff hoff fwyd

© Mae lleoliad yr ansoddair yn gallu newid yr ystyr, e.e.

- unig blentyn *only child*
 plentyn unig *lonely child*
- fy nghas fwyd *my most hated food*
 y dyn cas *the nasty man*

Mae llawer o enwau benywaidd yn gorffen gydag '-aeth', felly, gwybodaeth ddefnyddiol.

Treigladau

©

- T.M. ar ôl enw benywaidd unigol, e.e. merch **dal**, rhaglen **dda**.
- Dau ansoddair yn dod ar ôl enw benywaidd unigol = T.M. yn y ddau, e.e. trafodaeth fywiog **ddiddorol**.
- **Dim** treiglad ar ôl enw gwrywaidd unigol, enw lluosog nac ar ôl berfenw, e.e. blodyn **pert**, blodau **tlws**, ynganu **clir**.
- T.M. **ar ôl** ansoddair, e.e. hen **ddyn**, prif **fanteision**, **OND**, sawl bachgen, rhai pethau, pob dydd, peth gwybodaeth.
- T.M. mewn ansoddair ar ôl 'neu' ac 'yn', e.e. mawr neu **fach**, yn **ddiddorol**.
- T.M. mewn ail elfen gair cyfansawdd, e.e. dulas, coch**ddu**.

Rhoi sglein ar

IAITH

ANSODDEIRIAU

Ffurfiau benywaidd ansoddeiriau

- Llawer o'r ffurfiau benywaidd wedi diflannu ar lafar.
- Parhau i'w defnyddio mewn rhai ymadroddion, e.e. y ford gron, ffrog wen, blows felen, sgert werdd, stori fer.

© T.M. ar ôl yr enw benywaidd unigol, e.e. cath **ddu**.

Y negyddol

- an + T.T. e.e. **amherffraith**
- af + T.M. e.e. **aflwyddiannus**
- di + T.M. e.e. **diddychymyg**

Newid ystyr

- Mae 'iawn' a 'dros ben' yn dod ar ôl ansoddair, e.e. da iawn.
- Mae 'rhy', 'gweddol', 'hollol' + T.M. yn dod o flaen ansoddair, e.e. rhy **ddrud**.
- **OND** dim treigladau ar ôl 'eitha' a 'digon', e.e. eithaf da, digon mawr.

Ffurfiau lluosog ansoddeiriau

- Llawer o'r ffurfiau lluosog wedi diflannu ar lafar.
- Parhau i'w defnyddio mewn ymadroddion arbennig, e.e. straeon byrion, plant bychain, mwyar duon.

bod yn + ansoddair

Edrychwch ar y patrwm:

- y ferf bod + enw neu ragenw + yn + T.M. e.e. Mae'r siop **yn** brysur heddiw.
- y ferf bod + enw neu ragenw + berfenw + yn + T.M. e.e. Roedd e'n rhedeg **yn** gyflym.

Ⓔ Dim T.M. gyda 'll' a 'rh', e.e. Mae'r siop yn llawn.



Fel arfer, mae arddodiad yn cyfeirio at le, digwyddiad neu amser

Treigladau

⇒ Mae treigladau meddal ar ôl

am	i	wrth
ar	o	dan / o dan / tan
at	dros / tros	gan
heb	drwy / trwy	hyd

e.e. heb gartref, i Gaerdydd

⇒ Mae treigladau trwynol ar ôl

- yn *in*
e.e. **ym** Mhen-bre, **yn**ghanol y drain

⇒ Mae treigladau llaes ar ôl

- â *with the aid of* e.e. Torrais fy llaw â chylllell
- â (ar ôl berf) e.e. siarad â phennaeth yr ysgol
- gyda *with, in the company of*
e.e. Byddaf yn mynd allan **gyda** thri ffrind
- tua, e.e. tua chwe **chant** o bobl.

⇒ Does dim treigladau ar ôl

cyn	wedi	rhwng
er	ers	

e.e. cyn gadael y siop, rhwng dwy siop

'yn' a 'mewn'

- ⇒ Rhaid defnyddio 'mewn' o flaen enw amhendant *in a*, e.e. mewn cwpwrdd, mewn munud.
- ⇒ Rhaid defnyddio 'yn' o flaen
 - y, yr, priflythyren, e.e. yn Abergwaun
 - rhagenw, e.e. yn eu tŷ nhw
 - pob, e.e. ym mhob ysgol

'er' ac 'ers'

- Rhaid defnyddio 'er' wrth sôn am amser pendant yn y gorffennol, e.e. Roedd hi'n byw yno er 1999.
- Rhaid defnyddio 'ers' wrth gyfeirio at amser mwy cyffredinol yn y gorffennol, e.e. Roedden nhw'n byw yno ers blyneddau.

Rhoi sglein ar
IAITH

ARDDODIAD

Arddodiaid a berfau

- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan yr un arddodiad yn y Gymraeg a'r Saesneg, e.e. talu **am** *to pay for*.
- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan arddodiad gwahanol yn y Gymraeg, e.e. gweiddi **ar** *to shout at*.
- Weithiau mae berf yn cael ei dilyn gan arddodiad yn y Gymraeg pan does dim arddodiad yn y Saesneg, e.e. sylwi **ar** *to notice*.



Os oes dau ferfenw yn dilyn ei gilydd, does dim angen arddodiad rhyngddynt, e.e. penderfynu mynd, gorfod talu, gobeithio ennill.

Penderfynu i fynd **X**



- Os oes rhagenw yn dod ar ôl arddodiad, rhaid rhoi'r terfyniad cywir ar yr arddodiad, e.e. siarad amdano fe, edrych arnyn nhw.
- Dydych chi ddim yn gallu gorffen brawddeg gydag arddodiad.
'Beth wyt ti'n siarad am?' **X**
'**Am** beth rwyt ti'n siarad?' **✓**
- Mae 'Roedd hi'n siarad amdano' yn gywir achos mae gan yr arddodiad 'am' derfyniad - 'amdano'.

Idiomau

AR	I	GAN / GYDA
ofn	rhaid	flin
cywilydd	bryd	gas
bai	hen bryd	ddrwg
dyled	well	

Enghreifftiau

Roedd ofn arna i.
Bydd hi'n well iddyn nhw.
Mae'n gas gyda fe.



Afiechyd

- Os oes rhan o'r corff yn cael ei enwi yn yr afiechyd, rhaid defnyddio **gan** neu **gyda**, e.e. Mae cefn tost **gen** i / **gyda** fi.
- Os nad oes rhan o'r corff yn cael ei enwi yn yr afiechyd, rhaid defnyddio **ar**, e.e. Mae peswch **arni** hi.



Atalnod llawn (.)

Rhaid defnyddio atalnod llawn ar ddiwedd brawddeg, e.e. Mae hi'n bwrw glaw heddiw.

- Ⓒ Rhaid dechrau pob brawddeg â phriflythyren.

Atalnod, coma (,)

Rhaid defnyddio atalnod

- i wahanu eitemau mewn rhestr, e.e. Mae tatws, moron, bresych a letys yn tyfu yn yr ardd.
- Ⓒ does dim atalnod o flaen 'a' fel arfer. i ddangos bod saib, e.e. Prynais y llyfr, a oedd yn costio decpunt, yn y siop lyfrau.
- Rhaid defnyddio atalnod o flaen dyfyniad uniongyrchol ac ar ôl dyfyniad os nad yw'r dyfyniad yn gorffen y frawddeg, e.e. 'Mae'r bwyd yn ddrud,' meddai, gan chwilio am fwy o arian.

Ebychnod (!)

Rhaid defnyddio ebychnod

- i ddangos syndod, e.e. O na!
- mewn gorchymyn, e.e. Byddwch yn dawell!
- i dynnu sylw, e.e. Dewch yma ar unwaith!

Y collnod (')

Os oes llafariad ar ddiwedd un gair ac ar ddechrau'r gair nesaf, rhaid dileu rhai llafariadau a rhoi collnod yn eu lle, e.e. Bydd hi yn > Bydd hi'n.

OND os yw'r 'yn' yn golygu 'mewn' (*in*), dydyn ni ddim yn defnyddio collnod, e.e. Bydd hi yn y dref.

y ci a y gath > y ci a'r gath
Mae y dyn > Mae'r dyn
o eich > o'ch
i ein > i'n

Rhoi sglein ar

IAITH

ATALNODI

Gofynnod (?)

Rhaid defnyddio gofynnod ar ddiwedd cwestiwn,

e.e. Pwy sy'n canu?

© Rhaid dechrau pob cwestiwn â phriflythyren.

Priflythrennau

Rhaid defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg neu gwestiwn, e.e. Roedd y ffilm yn dda iawn.

Hefyd, rhaid defnyddio priflythrennau ar gyfer

- enwau pobl
- enwau lleoedd, e.e. Abertawe
- teitlau llyfrau, ffilmiau, gemau ac ati, e.e. Sgorio
- dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn a gwyliau **OND** does dim angen priflythyren ar gyfer y tymhorau na phynciau'r ysgol, e.e. daearyddiaeth, y gaeaf, y Pasg.

Dyfynodau (' ... ')

- Rhaid defnyddio dyfynodau bob tro mae rhywun yn siarad, e.e. 'Rwy'n oer,' meddai Sioned.
- Rhaid dechrau llinell newydd pan fo rhywun newydd yn siarad.



Brawddeg semi

- Un cymal sy yn y frawddeg hon, e.e. Mae'r dyn yn siarad.

Brawddeg gymhleth

- Mae prif gymal ac is-gymal (neu is-gymalau) mewn brawddeg gymhleth.
- Mae'r is-gymal yn dweud mwy wrthon ni am y prif gymal, e.e. Dyma'r bachgen a enillodd y wobr.

Cofiwch

Mae pob brawddeg yn gorffen gydag atalnod llawn (.), gofynnod (?) neu ebychnod (!).



Brawddeg gymysg

- I bwysleisio ffaith, rhaid ei rhoi ar ddechrau'r frawddeg, e.e. Elis sy'n talu am y bwyd heddiw.

Brawddeg gydradd

- Mae dau neu fwy o gymalau mewn brawddeg gydradd.
- Mae'r cymalau yn cael eu cysylltu â'r geiriau 'a', 'ac', 'ond', 'neu'.
- Mae pob cymal yn gydradd, e.e. Byddwch yn dawel neu ewch allan!

Rhoi sglein ar
IAITH

BRAWDDEGAU



Yn aml, mae 'bod' yn cyflwyno'r is-gymal enwol.

Cofiwch

- * fy mod i
- * dy fod ti
- * ei fod e / o
- * ei bod hi
- * ein bod ni
- * eich bod chi
- * eu bod nhw

Negyddol = bod + ddim, e.e.

Rwy'n gwybod bod y dyn ddim yn gallu darllen.

Cymal enwol

- Mae'r cymal enwol yn dweud rhywbeth am y ferf yn y prif gymal, e.e. Mae hi wedi clywed **bod parti heno**.

Os oes rhaid pwysleisio rhywbeth yn y cymal enwol, bydd y cymal yn dechrau gyda 'mai' neu 'nad', e.e. Rwy't ti'n gwybod **mai** fi yw'r gorau.

Peidiwch â defnyddio 'mae', 'roeddwn i' ac ati ar ôl 'bod'.
Rwy'n siwr bod rydw i'n hwyr. X
Rwy'n siwr fy mod i'n hwyr. ✓

Rhoi sglein ar
IAITH

CYMALAU

Cymal perthynol /ansoddeiriol

- Mae'r cymal perthynol yn disgrifio enw neu ragenw yn y prif gymal, e.e. Dyma'r dyn **sy'n byw drws nesaf** i fi.

Yn aml, mae cymal perthynol yn dechrau gyda 'sydd', 'a', 'y', 'yr' neu 'na' yn y negyddol, e.e. Dyma'r dyn **a** brynodd y car.
Dyma'r ferch **na** thalodd am y tocyn.

Cymal adferfol

- Mae'r cymal adferfol yn dweud pam, pryd neu sut mae rhywbeth wedi digwydd, e.e. Gwisgais fy nghot **achos roedd hi'n bwrw glaw**.

Yn aml, mae cymal adferfol yn dechrau gydag un o'r geiriau hyn

- | | | |
|-------|------------|---------|
| * os | * er mwyn | * wedi |
| * pe | * hyd oni | * pan |
| * fel | * am | * gan |
| * lle | * er | * tra |
| * cyn | * oherwydd | * achos |

Treiglo gyda rhagenwau gofynnol

Sut	berf	-	Sut daethoch chi yma?
Sut	enw	T.M.	Sut ddyn yw e?
Pryd	berf	-	Pryd prynoch chi fe?
Ble	berf	-	Ble gwelsoch chi hi?
Beth	berf	T.M.	Beth fydd hi'n ei wneud?
Faint	berf	T.M.	Faint daloch chi?
Pwy	berf	T.M.	Pwy fydd yno?
Pa	enw	T.M.	Pa fwyd sy yn y siop?
Pa	enw + berf	T.M.	Pa gig gest ti?

Beth Faint Pwy Pa + enw	fydd	rhagenw blaen	berfenw
----------------------------------	------	---------------	---------

Enghreifftiau

- Beth fyddwch chi'n ei wneud cyn cinio?
- Pa ddarlun fydd hi'n ei brynu gyda'r arian?



Sawl + enw unigol

Faint o + T.M. + enw
lluosog



Ydy yn y cwestiwn =
Ydy neu Nac ydy yn
yr ateb

Oes yn y cwestiwn =
Oes neu Nac oes yn
yr ateb

Rhoi sglein ar
IAITH

CWESTIYNAU

© Brawddeg bwyslais fel
cwestiwn,
e.e. Fe yw'r doctor?
↓
Ie neu Nage yn yr ateb,
e.e. Ie, fe yw'r doctor.

© Cwestiwn yn y gorffennol,
e.e. Est ti allan?
↓
Do neu Naddo yn yr ateb,
e.e. Do es i i'r dref.

© Dydych chi ddim yn gallu gorffen cwestiwn
gydag arddodiad heb derfyniad, felly, fel arfer,
mae'r arddodiad yn mynd o flaen y rhagenw gofynnol,
e.e. I ble byddi di'n mynd? ✓
Ble byddi di'n mynd i? ✗

At bwy anfonaist ti'r llythyr? ✓
Pwy anfonaist ti'r llythyr at? ✗

Sydd/Sy neu Yw/Ydy?

Rydyn ni'n defnyddio **sydd** gyda

Pwy? + 'n / yn / wedi + berfenw

Beth? + 'n / yn + ansoddair

Faint? + arddodiad

Pa + enw? + yma / yna / yno

e.e.

Pwy sy'n canu?

Beth sy'n swillyd?

Pa lyfr sy ar y bwrdd?

Rydyn ni'n defnyddio **yw / ydy** gyda

Pwy? + enw (neu y / yr / 'r + enw)

Beth? + rhagenw

Faint? + hwn / hon / hyn / hwnna / honna / y rheina

Pa + enw?

e.e.

Pwy yw'r pennaeth?

Faint yw hwn?

Beth yw e?

Edrychwch ar y patrwm

Pwy	mae e'n	ei	charu?
Beth	oedd Jac yn	ei	ddarllen?
Faint	bydd hi'n	eu	prynu?
P'un	rwyt ti'n	ei	gofio?

© Rydyn ni'n defnyddio 'mae' a ffurfiau cwestiwn eraill y ferf gyda 'Ble?' 'Pryd?' 'Pam?' 'Sut?' a 'Gyda phwy?' e.e.

- Pam maen nhw'n hwyr?
- Pryd rydych chi'n mynd allan?
- Sut maen nhw'n teithio?

Rhoi sglein ar
IAITH

CWESTIYNAU

Mae dwy ffordd o gymharu
ansoddeiriau.

Ffurfiâu cwmpasog

Roedd y bachgen mor dew â mochyn.
Dydy menyn ddim mor ddrud â chaws.

Mae afal yn fwy melys nag oren.
Dydy cathod ddim yn fwy clyfar na chŵn.
Mae cŵn yn llai clyfar na phobl.

Y gŵr fydd y mwyaf cyfoethog.
Hi fydd y fwyaf penderfynol.
Dim y merched oedd y mwyaf doeth.
Hi oedd y lleiaf caredig.

T.M. i 'mwyaf' os yw'n disgrifio enw
benywaidd unigol

- T.M. ar ôl 'mor' a 'cyn'
- E ansoddeiriau sy'n dechrau gyda 'll' a 'rh'
- T.Ll. ar ôl 'â'

- 'na' o flaen cytsain ond
'nag' o flaen llafariad
- T.Ll. ar ôl 'na'

- y goddrych sy'n dod gyntaf

Ffurfiâu cryno

Bydd y bachgen cyn dewed â fi!
Fydd cig ddim cyn ddruted â physgod.

Roedd yr hufen iâ'n felysach na'r ffrwythau.
Doeddwn i ddim yn gryfach na chawr.
Doedd hi ddim yn llai difrifol na fi.

Hi oedd y ferch dalaf.
Twm oedd y cyflymaf yn y ras.
Nid hi oedd y fyrraf.

T.M. i'r ansoddair os
yw'n disgrifio enw
benywaidd unigol

Rhoi sglein ar
IAITH

CYMHARU
ANSODDEIRIAU



Wrth ychwanegu terfyniad,
mae rhai llythrennau'n newid

g > c, e.e. gwag > gwacach

b > p, e.e. gwlyb > gwlyped

d > t, e.e. drud > drutaf

n > nn, e.e. gwyn > gwynnach

r > rr, e.e. byr > byrraf

Cymharu ansoddeiriau afreolaidd

Cysefin	Cyfartal	Cymharol	Eithaf
anodd	anodded	anos	anodda(f)
bach	lleied	llai	lleia(f)
da	cystal	gwell	gorau
drwg	cynddrwg	gwaeth	gwaetha(f)
hawdd	hawsed	haws	hawsa(f)
hen	hyned	hŷn / hynach	hyna(f)
hir	hired / cyhyd	hwy / hirach	hwya(f) / hira(f)
isel	ised	is	isa(f)
llydan	lleted	lletach	lleta(f)
mawr	cymaint	mwyr	mwya(f)

Mae ansoddeiriau sy'n gorffen

* -ol * -og

* -us * -gar

* -adwy * -ig

yn defnyddio'r patrwm 'mor', 'mwy', 'mwya(f)',
e.e. yn fwy cyfoethog na..., y mwyaaf caredig.

Rhoi sglein ar

IAITH

CYMHARU
ANSODDEIRIAU

Cenedl enwau

Mae pob **enw cyffredin** yn wrywaidd (eg.) neu'n fenywaidd (eb.). Mae rhai enwau'n gallu bod yn wrywaidd neu'n fenywaidd, e.e. mae 'munud' yn wrywaidd yn y gogledd ond yn fenywaidd yn y de (egb.)

Lluosog enwau

Rydyn ni'n gallu ffurfio'r lluosog drwy

- ychwanegu terfyniad, e.e. merch > merched
- newid llafariad, e.e. bardd > beirdd
- ychwanegu terfyniad a newid llafariad, e.e. brawd > brodyr
- gollwng terfyniad unigol, e.e. mochyn > moch
- gollwng terfyniad unigol a newid llafariad, e.e. plentyn > plant
- cyfnewid terfyniad unigol am un lluosog, e.e. cwningen > cwningod
- cyfnewid terfyniad unigol am un lluosog a newid llafariad, e.e. cerdyn > cardiau

Fel arfer, mae'r enwau sy'n gorffen â'r terfyniadau hyn yn **fenywaidd**.

-en	coeden
-es	athrawes
-fa	swyddfa
-aeth / -iaeth	barddoniaeth
-ell	llinell
-wraig	ffermwraig
-eb	archeb

Fel arfer, mae'r enwau sy'n gorffen â'r terfyniadau hyn yn **wrywaidd**.

-ad / -iad	teimlad
-yn	planhigyn
-adur	dyddiadur
-aint	henaint
-wr	ffermwr
-rwydd	moethusrwydd
-iant	diwydiant

Un unigol ond dau luosog

Weithiau mae gan enw unigol ddau ystyr, ac felly dau luosog gwahanol, e.e. llif *saw* neu *flood* > llifiau *saws* a llifogydd *floods*.

Dyma enghreifftiau eraill. Chwiliwch am yr ystyron.

bron	bronnydd	bronnau
gwasg	gweisg	gwasgau
person	personau	personiaid
llwyth	llwythi	llwythau
pryd	prydau	prydiau (ar brydiau)

Rhoi sglein ar
IAITH

ENWAU

Treigladau

- enw ben. un. yn treiglo'n feddal ar ôl 'y', 'r', e.e. y gath a'r ferch.
Edydy 'll' a 'rh' ddim yn treiglo, e.e. y llong
- T.M. ar ôl dau, dwy, e.e. dau gi, dwy lwy
- T.M. mewn eb. un. ar ôl 'un'. e.e. un ferch.
EDydy 'll' a 'rh' ddim yn treiglo, e.e. un llwy
- T.M. ar ôl yn traethiadol, e.e. Roedd e'n bensaer.
- T.Ll. ar ôl 'tri' a 'chwe', e.e. chwe cheffyl
- T.M. mewn ansoddair yn dilyn eb. un. e.e. athrawes dda




C

- Enw unigol ar ôl rhifolion hyd at 10, e.e. deg dyn
- Rhifolyn + o + enw lluosog + T.M. ar gyfer rhifau o 11 ymlaen, e.e. ugain o fechgyn

Mathau o enwau

- **Enw cyffredin** yw'r ateb i'r cwestiwn **Beth?** Bydd yn dechrau â llythyren fach, e.e. ci, persawr.
- **Enw priod** yw'r ateb i'r cwestiynau **Pwy?** a **Ble?**. Bydd yn dechrau â phrif lythyren, e.e. Bangor, Tomos, Pobol y Cwm.
- Rydyn ni'n gallu ymateb i **enw diriaethol** gydag un o'r pum synnwyr (gweld, clywed, arogl, teimlo, blasu), e.e. cadair, teulu.
- Rhyw fath o syniad yw **enw haniaethol**. Dydyn ni ddim yn gallu ymateb iddo gydag un o'r pum synnwyr, e.e. hiraeth.
- **Enw torfol** yw'r enw ar grŵp o bobl neu bethau, e.e. byddin o filwyr, diadell o ddefaid.



Y Gorffennol Cryno *I opened ...*

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Agorais (es) i	Agorais (es) i ddim	Agorais (es) i?	Do, agoraist (est) ti	Naddo, agoraist (est) ti ddim
Agoraist (est) ti	Agoraist (est) ti ddim	Agoraist (est) ti?	Do, agorais (es) i	Naddo, agorais (es) i ddim
Agorodd e / o	Agorodd e / o ddim	Agorodd e / o?	Do, agorodd e / o	Naddo, agorodd e / o ddim
Agorodd hi	Agorodd hi ddim	Agorodd hi?	Do, agorodd hi	Naddo, agorodd hi ddim
Agoron ni	Agoron ni ddim	Agoron ni?	Do, agoron ni	Naddo, agoron ni ddim
Agoroch chi	Agoroch chi ddim	Agoroch chi?	Do, agorais (es) i Do, agoron ni	Naddo, agorais (es) i ddim Naddo, agoron ni ddim
Agoron nhw	Agoron nhw ddim	Agoron nhw?	Do, agoron nhw	Naddo, agoron nhw ddim



Mae T.M. ar ôl berf gryno, e.e.
Agoron nhw lyfr. Pryniff hi gar.

Mae T.M. ar ddechrau cwestiwn, e.e.
Ddarllenaist ti'r llyfr? Ddaw hi i Aberystwyth?

Mae T.Ll. ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â 'p', 't', 'c', e.e. **Chaiff** hi ddim. **Phrynes** i ddim byd.

Mae T.M. ar ddechrau'r negyddol os yw'r ferf yn dechrau â 'b', 'd', 'g', 'll', 'm', 'rh', e.e. **Ddywedodd** hi ddim wrthoch chi.
Ofyynniff hi ddim i fi.

ddim + y / yr / prif lythyren > mo / mo'r, e.e.
Wela i mo Wil fory. **Fwy**todd hi mo'r hufen iâ.


Rhaid defnyddio'r terfyniad cywir ar gyfer 'mo'

- mono i
- monot ti
- mono fe / fo
- moni hi
- monon ni
- monoch chi
- monyn nhw

Thaliff e mono i.
Welais i monoch
chi ddoe.

Y Dyfodol cryno *I'll open ...*

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Agora(f) i	Agora(f) i ddim	Agora(f) i?	Gwnei, agori di	Na wnei, agori di ddim
Agori di	Agori di ddim	Agori di?	Gwnaf, agora(f) i	Na wnaif, agora(f) i ddim
Agoriff e / o	Agoriff e / o ddim	Agoriff e / o?	Gwnaiff, agoriff e / o	Na wnaiff, agoriff e / o ddim
Agoriff hi	Agoriff hi ddim	Agoriff hi?	Gwnaiff, agoriff hi	Na wnaiff, agoriff hi ddim
Agorwn ni	Agorwn ni ddim	Agorwn ni?	Gwnawn, agorwn ni	Na wnawn, agorwn ni ddim
Agorwch chi	Agorwch chi ddim	Agorwch chi?	Gwnaf, agora(f) i Gwnawn, agorwn ni	Na wnaif, agora(f) i ddim Na wnawn, agorwn ni ddim
Agoran nhw	Agoran nhw ddim	Agoran nhw?	Gwnân, agoran nhw	Na wnân, agoran nhw ddim



Y Dyfodol

Mynd	Gwneud	Cael	Dod
Af i	Gwna(f) i	Ca(f) i	Do(f) i
Ei di	Gwnei di	Cei di	Doi di
Aiff / Â e / o	Gwnaiff e / o	Caiff e / o	Daw e / o
Aiff hi	Gwnaiff hi	Caiff hi	Daw hi
Awn ni	Gwnawn ni	Cawn ni	Down ni
Ewch chi	Gwnewch chi	Cewch chi	Dewch chi
Ân nhw	Gwnân nhw	Cân nhw	Dôn nhw

Y Gorffennol

Mynd	Gwneud	Cael	Dod
Es i	Gwnes i	Ces i	Des i
Est ti	Gwnest ti	Cest ti	Dest ti
Aeth e / o	Gwnaeth e / o	Cafodd e / o	Daeth e / o
Aeth hi	Gwnaeth hi	Cafodd hi	Daeth hi
Aethon ni	Gwnaethon ni	Cawson ni	Daethon ni
Aethoch chi	Gwnaethoch chi	Cawsoch chi	Daethoch chi
Aethon nhw	Gwnaethon nhw	Cawson nhw	Daethon nhw

Dyfodol Dod

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Ddof i?	Doi, doi di	Na ddoi, ddoi di ddim
Ddoi di?	Dof, dof i	Na ddof, ddof i ddim
Ddaw e / o?	Daw, daw e / o	Na ddaw, ddaw e / o ddim
Ddaw hi?	Daw, daw hi	Na ddaw, ddaw hi ddim
Ddown ni?	Down, down ni	Na ddown, ddown ni ddim
Ddewch chi?	Dof, dof i Down, down ni	Na ddof, ddof i ddim Na ddown, ddown ni ddim
Ddôn nhw?	Dôn, dôn nhw	Na ddôn, ddôn nhw ddim

Gorffennol Mynd

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Es i?	Do, est ti	Naddo, est ti ddim
Est ti?	Do, es i	Naddo, es i ddim
Aeth e / o?	Do, aeth e / o	Naddo, aeth e / o ddim
Aeth hi?	Do, aeth hi	Naddo, aeth hi ddim
Aethon ni?	Do, aethon ni	Naddo, aethon ni ddim
Aethoch chi?	Do, es i Do, aethon ni	Naddo, es i ddim Naddo, aethon ni ddim
Aethon nhw?	Do, aethon nhw	Naddo, aethon nhw ddim

Rhoi sglein ar

IAITH

FFURFIAU
CRYNO'R FERF

a / ac

a

- cysylltair *and* o flaen cytsain a'r llythyren 'h' + T.Ll.
e.e. ci a **ch**ath a hefyd dwy gwningen.
- geiryn gofynnol o flaen berf + T.M.
e.e. A **dda**ethoch chi ar y bws?
- rhagenw perthynol *who, which, that* + T.M.
e.e. Dyna'r dyn a **gly**wais yn siarad.
- mewn cwestiwn anuniongyrchol + T.M.
e.e. Gofynnais iddi a welodd hi'r lleidr.

ac

- cysylltair *and* o flaen llafariad,
e.e. oren **ac** afal, **ac** wedyn




- ac fe, ac fel, ac felly
- ac mae, ac mewn, ac mor, ac mai, ac meddai
- ac roedd
- ac sydd

- a + ei > a'i, e.e.
ei **frawd** a'i **chwaer**
- a + gyda / gan >
a **chyda** / a **chan**

ar / a'r / â'r

- ar = *on* yn Saesneg
e.e. ar y bwrdd
- a + y / yr (= *and the* yn Saesneg) > a'r,
e.e. y ferch **a'r** bachgen
- â + y / yr (= *with the* yn Saesneg) > â'r,
e.e. Prynais y bwyd **â'r** cerdyn newydd.



â / ag

â o flaen cytsain, ag o flaen llafariad

- arddodiad *by means of, with* + T.Ll.
e.e. Torrais fy mys â chylllell. Torrais fy mys ag erfyn miniog.
- arddodiad ar ôl rhai berfau + T.Ll.
e.e. cyfarfod â ffrind, siarad â chystadleuwyr, cytuno ag aelodau'r teulu.
- cysylltair *as* wrth gymharu ansoddeiriau + T.LL.
e.e. mor fawr â chawr, mor goch ag afal.
- mewn gorchymyn negyddol + T.LL.
e.e. Paid â chanu, Peidiwch ag ymddiheuro.

na + y / yr > na'r,
e.e. y ci na'r gath.

- â + ei > â'i
- â + eu > â'u
e.e. Torrodd ei fys â'i gyllell.
Maen nhw mor dal â'u rhieni.
- â + y / yr > â'r, e.e.
Es i â'r arian i'r swyddfa.

Ai

- mewn iaith ffurfiol ar ddechrau cwestiwn sy'n dechrau ag enw neu ragenw, e.e. **Ai** Tom oedd yn dathlu? **Ai** chi fydd yn gyrru?
- **©** Ie neu Nage fydd yr ateb.
- wrth bwysleisio ar ddechrau cwestiwn anuniongyrchol, e.e. Dw i ddim yn siwr **ai** hi neu fi yw'r hynaf.
- yn yr ymadrodd 'ai peidio' *or not*
e.e. Doedd hi ddim yn siwr a ddylai fynd ai peidio.

Na	Nag	Nac
o flaen cytsain wrth gymharu ansoddeiriau (gradd gymharol) <i>than</i> + T.Ll. e.e. yn dlotach na Chymru.	o flaen llafariad wrth gymharu ansoddeiriau (gradd gymharol) <i>than</i> e.e. yn gyfoethocach nag Ewrop.	
cysylltair o flaen cytsain + T.Ll. <i>neither ... nor</i> , e.e. Doedd dim papur na phensil ar y bwrdd.		cysylltair o flaen llafariad <i>neither ... nor</i> , e.e. Does dim aur nac arian gen i.

Rhoi sglein ar
IAITH

**GWALLAU
CYFFREDIN (1)**

A / OS / PE

- Defnyddir '**a**' mewn cwestiwn anuniongyrchol + T.M.
e.e. Gofynnais iddi a **ddarllenodd** hi'r nofel.
Cddylech chi ddim defnyddio 'os' mewn cwestiwn anuniongyrchol.
- Defnyddir '**os**' i ddangos amod,
e.e. Os bydd hi'n braf, bydda i'n mynd i lan y môr.
Fel arfer, bydd hi'n bosibl cyflawni'r amod - bydd yr amod yn y cymal cyntaf yn unig.
- Defnyddir '**pe**' pan dydyn ni ddim yn disgwyl gallu cyflawni'r amod - bydd mwy o ansicrwydd yma,
e.e. Pe bai hi'n braf, byddwn i'n mynd i lan y môr.

os + berf - **dim** 'os y', e.e.
os gwelwch chi'r car

- C** - dydy 'll' a 'rh' **ddim** yn treiglo
- ar ôl 'mor', e.e. mor llawn
 - mewn enw benywaidd unigol ar ôl 'y' / 'yr', e.e. y llong
 - ar ôl 'cyn' (*as*), e.e. cyn rhated
 - mewn enw neu ansoddair ar ôl 'yn', e.e. yn llawen, yn rhwydd
 - mewn enw benywaidd unigol ar ôl 'un', e.e. un rheol.

MAE / MAI

- 3ydd person unigol y ferf 'bod' = mae,
e.e. Mae hi'n oer
- 'taw' yn y de = mai, e.e.
Rwy'n gwybod mai ti sy'n iawn.

Rhoi sglein ar
IAITH

**GWALLAU
CYFFREDIN (II)**

YW / I'W

- yw = 3ydd person unigol y ferf bod. Defnyddiwrch **yw** os ydych chi'n gallu defnyddio 'ydy' yn y frawddeg,
e.e. Hwn yw'r llun gorau.
- i'w = i + ei / eu - *to his, to her, to their*
e.e. i + ei fam > i'w fam



ei gilydd ✓
NID
eu gilydd X



* **Maen** nhw = Maent hwy,
e.e. Maen nhw'n hwyr.
* Mae + yn > **Mae'n**,
e.e. Mae'n hwyr.



Mae T.M. ar ôl 'ei' gwrywaidd, e.e. ei dad, ei frawd, ei deulu.

Mae T.LI. ar ôl 'ei' benywaidd, e.e. ei **thad**, ei brawd, ei **theulu**.

Does dim treigladau ar ôl 'eu' lluosog, e.e. eu **tad**, eu brawd, eu **teulu**.

bod / fod

- **bod** ar ôl
⇒ berf amhersonol, e.e. Penderfynwyd **bod** angen help.
⇒ berfenw, e.e. Mae hi'n dweud **bod** mwnci yno.
⇒ y cysylltair 'a' (*and*), e.e. Dywedodd ei fod yn hapus a **bod** llawer o newyddion da ganddo.
⇒ 'er', e.e. Er **bod** y siwmpwr yn ddur, prynais i hi.
⇒ y rhagenwau 'ei' benywaidd, 'ein', 'eich' ac 'eu', e.e. ei bod hi, ein bod ni, eich bod chi, eu bod nhw.
- **fod** ar ôl
⇒ berf gryno bersonol, e.e. Dywedodd **fod** llawer o'r cleifion wedi marw.
⇒ y rhagenwau 'dy', 'ei' gwrywaidd, e.e. dy **fod** ti, ei **fod** e
⇒ 'efallai' e.e. Efallai fod gormod o waith ganddyn nhw.

Rhoi sglein ar
IAITH

**GWALLAU
CYFFREDIN (II)**

Cyfieithu priod-ddulliau

Mae llawer o ymadroddion Saesneg yn cynnwys yr adferfau *up, down, out, in, off, on*.

Peidiwch â chyfieithu'r rhain yn llythrennol. Mae ymadroddion Cymraeg gyda ni, e.e.

- dwyn i fyny / codi lan > magu
- troi lawr > gwrthod
- cario mlaen > parhau
- rhoi i mewn i > ildio
- troi i ffwrdd > diffodd

Yr arddodiad ar ddiwedd brawddeg

- **Peidiwch â** gorffen brawddeg neu gwestiwn gydag arddodiad heb ei redeg, fel sy'n digwydd yn aml yn Saesneg.

Ble mae hi'n dod o? X

O ble mae hi'n dod? ✓

Beth roedd hi'n siarad amdano? X

Am beth roedd hi'n siarad? ✓

- © Mae'n rhaid rhedeg yr arddodiad yn gywir, e.e. **Amdana** i roedd o'n sôn. / Roedd o'n sôn **amdana** i.

© Heb + T.M., e.e.
heb brynu, heb ddarllen

Heb

Mae 'heb' yn negyddol, felly mae'r frawddeg ganlynol yn anghywir achos mae dau negydd ynddi hi. Mae hyn yn rhoi ystyr cadarnhaol i'r frawddeg,

- **Dydy** hi **heb** dderbyn y llythyr. X

Mae'r frawddeg nesaf hefyd yn anghywir achos mae 'wedi' yn pwysleisio'r cadarnhaol ac mae'r 'dydy' a'r 'heb' yn pwysleisio'r negyddol.

- **Dydy** o **heb** **wedi** clywed y newyddion. X

Mae hi heb dderbyn y llythyr. ✓

Mae o heb glywed y newyddion. ✓

Rhoi sglein ar
IAITH

GWALLAU
CYFFREDIN (III)

cael, gan / gyda

- cael = y broses o dderbyn *to have*, e.e. Rwy'n cael car coch wythnos nesa.
- gan / gyda = mae'r eitem gennych chi'n barod *to get*, e.e. Mae gen i gar coch. Roedd car du ganddyn nhw.

C Cofiwch - yn y Gymraeg mae'r rhagenw yn dod ar ôl 'gan' neu 'gyda', e.e. Mae llyfr gen i. ✓
neu Mae llyfr gyda fi. ✓
NID Fi gyda / gyn llyfr. X

Eisiau

Does dim 'yn' neu 'n' o flaen 'eisiau', e.e. Roedd o eisiau mynd i'r brifysgol. Fyddwch chi ddim eisiau clywed!
OND ar gyfer y Saesneg 'Wanted!', rhaid dweud **Yn** eisiau!

Byddwch yn ofalus wrth gyfieithu *get / got* yn Saesneg.

- *to get on the train*
> mynd ar y trê
- *to get bored* > diflasu

C Cofiwch - yn wahanol i'r Saesneg, mae 'i gyd' yn dod **ar ôl** y pethau mae'n cyfeirio atynt, e.e. y rhieni i gyd ✓
NID gyd o'r rhieni X

Cyfieithu the ... of the ...

Yn y Gymraeg, does dim angen cyfieithu'r fannod *the* gyntaf na'r *of* yn Saesneg, e.e. ~~the~~ theme ~~of~~ the book > thema'r llyfr
~~the~~ boys' parents >
~~the~~ parents ~~of~~ the boys > rhieni'r bechgyn.

Dal (*still*)

Rhaid defnyddio 'yn' neu 'n' o flaen 'dal', e.e. Pwy sy'n dal i siarad?
Roedden nhw'n dal i fyw yng Nghaerdydd.

Rhoi sglein ar
IAITH

GWALLAU
CYFFREDIN (III)

Treigladau

rhagenw	treiglad	enghraifft
fy ... i	T.T.	fy nhref i
dy ... di	T.M.	dy frawd di
ei ... e / o	T.M.	ei deulu e / o
ei ... hi	T.Ll.	ei char hi
ein ... ni		ein teledu ni
eich ... chi		eich bwyd chi
eu ... nhw		eu llun nhw



Ar ôl **ei** (benywaidd), **ein** ac **eu** mae 'h' o flaen geiriau sy'n dechrau â llafariad e.e. ei hysgol hi; ein hamserlen ni; eu hiaith nhw.



Rydyn ni'n gallu defnyddio rhagenw yn wrthrych berfenw, e.e. Mae e wedi **ei gweld** hi. Roedd e eisiau fy nghosbi i.

Rydyn ni'n defnyddio'r rhagenw gyda 'bod' mewn cymal enwol.

fy mod i
dy fod di
ei fod e / o
ei bod hi
ein bod ni
eich bod chi
eu bod nhw

e.e. Mae e'n meddwl fy mod i'n dwp.



ein gilydd (ni)
eich gilydd (chi)
ei gilydd (nhw)

siarad â'i gilydd

gyda'i gilydd

cerddwch gyda'ch gilydd

Mae rhagenw yn cael ei ddefnyddio yn lle enw.

Rhoi sglein ar
IAITH

RHAGENWAU

arall ac eraill

arall	<i>other / another (sing)</i>
eraill	<i>other / another (plu)</i>
un arall	<i>another one</i>
merch arall	<i>another girl</i>
merched eraill	<i>other girls</i>

Rhagenwau dangosol

- hwn neu hwnnw - gwrywaidd, e.e. Mae hwn yn dda.
- hon neu honno - benywaidd, e.e. Roedd honno'n wych.
- hyn neu hynny - haniaethol neu syniad, e.e. Mae hyn yn ofnadwy.
- y rhain neu rheiny - lluosog, e.e. Mae'r rhain yn flasus iawn.
- y ... hwn / hon *this*
- y ... hwnnw / honno *that*
- y ... hyn *these*
- y ... hynny *those*

Idiom

ar **fy** **m**hen fy hun
ar **dy** **b**en dy hun
ar **ei** **b**en ei hun (fe)
ar **ei** **p**hen ei hun (hi)

©
ei - unigol
eu - lluosog

Rhoi sglein ar
IAITH

RHAGENWAU

Rhif	Rhifolion	Treigladau	Trefnolion	Treigladau
1	un	un bachgen / un ferch	cyntaf (1 ^{af})	y bachgen cyntaf / y ferch gyntaf
2	dau / dwy	dau fachgen / dwy ferch y ddau / y ddwy	ail (2 ^{il})	yr ail fachgen / yr ail ferch
3	tri / tair	tri + TLI tri chi / tair cath y tri bachgen / y tair merch	trydydd (3 ^{ydd}) trydedd	y trydydd dyn / y drydedd ferch
4	pedwar / pedair	y pedwar bachgen y pedair blynedd	pedwerydd (4 ^{ydd}) pedwaredd	y pedwerydd bachgen / y bedwaredd ferch
5	pump, pum	pum mlwydd / pum mlynedd	pumed (5 ^{ed})	y pumed bachgen / y bumed golofn
6	chwech, chwe	chwech + TLI - chwe pheth	chweched (6 ^{ed})	y chweched dosbarth / y chweched ferch
7	saith	saith mlynedd	seithfed (7 ^{fed})	y seithfed flwyddyn
8	wyth	wyth bunt	wythfed (8 ^{fed})	yr wythfed dydd / yr wythfed ferch
9	naw	naw mlynedd	nawfed (9 ^{fed})	y nawfed bachgen / y nawfed ferch
10	deg	deng mlynedd	degfed (10 ^{fed})	y ddegfed bennod
11	un deg un / un ar ddeg		unfed ar ddeg (11 ^{eg})	
12	un deg dau / deuddeg	deuddeng mlynedd	deuddegfed (12 ^{fed})	y ddeuddegfed reol
13	un deg tri / tri ar ddeg / tair ar ddeg		trydydd ar ddeg / trydedd ar ddeg (13 ^{eg})	y trydydd diwrnod ar ddeg / y drydedd ganrif ar ddeg
14	un deg pedwar / pedwar ar ddeg / pedair ar ddeg		pedwerydd ar ddeg / pedwaredd ar ddeg (14 ^{eg})	
15	un deg pump / pymtheg	pymtheng mlynedd	pymthegfed (15 ^{fed})	y bymthegfed ddogfen
16	un deg chwech / un ar bymtheg		unfed ar bymtheg (16 ^{eg})	
17	un deg saith / dau ar bymtheg / dwy ar bymtheg		ail ar bymtheg (17 ^{eg})	
18	un deg wyth / deunaw	deunaw mlynedd	deunawfed (18 ^{fed})	y deunawfed dyn / y ddeunawfed flwyddyn



Rhif	Rhifolion	Trefnolion
19	un deg naw / pedwar ar bymtheg / bymtheg / pedair ar bymtheg	pedwerydd ar bymtheg / pedwaredd ar bymtheg
20	dau ddeg / ugain	ugeinfed
21	un ar hugain	unfed ar hugain
22	dau ar hugain / dwyr ar hugain	ail ar hugain
23	tri ar hugain / tair ar hugain	trydydd ar hugain / trydedd ar hugain
24	pedwar ar hugain / pedair ar hugain	pedwerydd ar hugain / pedwaredd ar hugain
25	pump ar hugain	pumed ar hugain
26	chwech ar hugain	chweched ar hugain
27	saith ar hugain	seithfed ar hugain
28	wyth ar hugain	wythfed ar hugain
29	naw ar hugain	nawfed ar hugain
30	tri deg / deg ar hugain	degfed ar hugain
31	tri deg un / un ar ddeg ar hugain	unfed ar ddeg ar hugain
40	pedwar deg / deugain	deugeinfed
50	pum deg / hanner cant	hanner canfed
60	chwe deg / trigain	trigeinfed
70	saith deg	
80	pedwar ugain/wyth deg	
90	naw deg	
100	cant / can	canfed
1000	mil	milfed

©
dwy fil
tair mil
pedair mil
pum mil

can milltir
can mlynedd
can punt
canmlwyddiant



©
Ugain + T.T. e.e.
ugain mlynedd

Cyfrif arian
Mae 'ceiniog' a 'punt' yn fenywaidd
pedair ceiniog
tair punt

© **Dweud yr amser**

- Mae amser yn fenywaidd
- ⇒ Mae hi'n
- ⇒ Roedd hi'n
- ⇒ Bydd hi'n
- Treigladd meddal ar ôl 'hi'n' ac ar ôl 'i'
- ⇒ Mae hi'n bum munud i **ddau**.

Y dyddiad
Mae dau batrwm

- y trydydd o Fai
- yr unfed ar ddeg ar hugain o Awst

neu

- Gorffennaf y pedwerydd
- Tachwedd y deunawfed

Enw unigol ar ôl rhif hyd at 10 e.e. deg plentyn
Ar ôl 10 defnyddiwch y patrwm
rhif + o + enw lluosog + T.M.
e.e. deuddeg o blant

Mae pob gair yn **unsill** neu'n **lluosill**.

Un sillaf sy mewn geiriau unsill, e.e. brawd, tŷ.
Mae mwy nag un sillaf mewn geiriau lluosill,
e.e. bachgen, cartref, perchennog, disgybledig.

Pam mae hyn yn bwysig?

Yn y Gymraeg, mae'r acen ar y sillaf olaf ond un. Fel arfer, os oes 'n' neu 'r' yn agos at ddiwedd y sillaf olaf ond un, bydd yn dyblu, e.e. pennill, gyrru,

OND, **(E)** e.e. penderfynu, cylchgronau.

(C) Dim ond dwy lythyren sy'n dyblu, sef 'n' a 'r'.

Rheolau dyblu 'n' 'r'

- Mae 'an' (negyddol) o flaen gair sy'n dechrau â 't' neu 'd' fel arfer yn troi'n 'ann', e.e. an + digonol > annigonol. **OND** os oes cytsain arall yn dilyn y 'd' neu'r 't', yn y ffurf wreiddiol, yna does dim dyblu 'n', e.e. trefn > anhrefn.
- Os yw'r llafariad yn hir mewn gair unsill, dydyn ni ddim yn dyblu wrth ychwanegu sillaf, e.e. môr > moroedd, tŷn > tonau, **OND** ton > tonnau achos llafariad byr sy yn y gair unsill.
- Os ydyn ni'n ychwanegu sillaf at air sy'n gorffen yn '-nt', rydyn ni'n colli'r 't' ac yn dyblu'r 'n', e.e. cant > cannoedd, punt > punnoedd, maent hwy > maen nhw.
- Does dim dyblu 'n' o flaen y terfyniadau '-ion' a '-iaid', e.e. gwyn > gwynion.

Y to bach neu'r acen grom

- Mae to bach ar y llafariad 'a', 'e', 'o', 'w', 'y' os ydyn nhw'n hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda 'l', 'n' neu 'r', e.e. sêr, pêl, sŵn

(C) y gair **ALENORWY**

- Mae to bach mewn geiriau lluosill os yw'r pwyslais ar y sillaf olaf, e.e. ar wahân.
- Mae to bach ar lafariad hir mewn gair unsill sy'n gorffen gyda'r cytseiniaid 'p', 't', 'c', 'm', e.e. tîm, plât, grŵp.
- Does dim angen to bach mewn geiriau unsill sy'n gorffen gyda llafariad, e.e. to, te. **OND**, mae tŷ yn eithriad.

(C) Mae to bach ar y tŷ ond does dim to bach ar y to!

(C) Does dim to bach ar haf a nod.

'y' nid 'u' sy'n dod ar ôl 'w' fel arfer, e.e. llwy, blwyddyn, nwyddau.

Rhoi sglein ar

IAITH

SILLAFU



'i' neu 'u' ar ddiwedd berfenwau

- 'o' yng nghanol berfenw = 'i' ar y diwedd, e.e. colli, pori
 - 'a' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. canu, taranu
 - 'y' neu 'w' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. cysgu, chwyrnu
 - 'w' yn agos at ddiwedd berfenw = 'i' yn ei dilyn, e.e. berwi, drewi
 - 'e' yng nghanol berfenw = 'u' ar y diwedd, e.e. credu, methu
- (E)** geni, mynegi, peri, pesgi, rhegi.



Collnod neu sillgoll (')

Mae collnod yn dangos bod llythyren, sillaf neu air cyfan ar goll.

Gair yn gorffen gyda llafariad + gair nesa'n dechrau gyda llafariad > dileu rhai o'r llafariad + collnod yn eu lle, e.e. colli **eich** > colli**'ch**,
Mae hi **yn** mynd > mae hi**'n** mynd

OND **(C)** os ydy'r 'yn' yn golygu mewn *in* = dim collnod yn lle'r 'yn', e.e. Rydw i **yn** y dre.

Cysylltnod (-)

Rhaid defnyddio cysylltnod

- ar ôl 'cyd', 'cyn', 'is', 'ôl', 'uwch', 'ail' os oes pwyslais arbennig arnyn nhw, e.e. is-gadeirydd, uwch-athro, cyd-fynd
- OND**, os yw'r pwyslais ar y sillaf olaf ond un, does dim rhaid defnyddio cysylltnod, e.e. israddol, cydwybod, ailadrodd.
- rhwng 'cyd', 'di' a gair unsill, e.e. cyd-fynd â, di-boen.

Seiniau

- * yr un sain sydd i 'ph' a 'ff' - dim ond fel T.L.I. mae 'ph' yn cael ei ddefnyddio
- * rhaid defnyddio 'ff' yn y Gymraeg ar gyfer y sain 'f' yn Saesneg, e.e. ffair, coffi, Ffion
- * rhaid defnyddio 'f' yn y Gymraeg ar gyfer y sain 'v' yn Saesneg, e.e. yfory, yfed, afal.

Acenion eraill:

ĩ
copio, cwmniau,
dyweddio, gweddio,
saerniaeth, storiau.

á
caniatáu, casáu,
gwacáu, iacháu.



Ansoddeiriau ar ôl

- 'un' ben (E) ansoddeiriau sy'n dechrau â 'll' a 'rh'),
e.e. Un ddel yw Mari ac un llon yw ei chwaer.
- enw benywaidd unigol e.e. merch dal
- 'yn' (E) ansoddeiriau sy'n dechrau â 'll' a 'rh')
e.e. yn dal, yn rhwydd, yn llonydd.
- 'neu' e.e. coch neu felyn
- 'mor' a 'cyn' (E) ansoddeiriau sy'n dechrau â 'll' a 'rh') e.e. mor flinedig
- 'rhy' e.e. rhy ddewr

Ar ôl ansoddeiriau, e.e. hen ddillad

Dyma'r llythrennau sy'n newid.

p > b

t > d

c > g

b > f

d > dd

g > -

ll > l

m > f

rh > r

Rhoi sglein ar

IAITH

Y TREIGLAD
MEDDAL

Mae T.M. ar ôl yr arddodiaid am, ar, at, gan, heb, i, o, dan, dros, wrth, hyd, drwy
e.e. drwy ddws y siop

2

- Mae 'dau' a 'dwy' yn treiglo ar ôl 'y' e.e. y ddwy ferch a'r ddau fachgen **ond** y tair stori y pedair cadair
- Mae T.M. ar ôl 'dau' a 'dwy' e.e. dau gi a dwy gath

Rhagenwau

- ar ôl 'ei'/i (gwr)
- ar ôl 'i'w' (gwr)
- ar ôl 'dy'
e.e. mynd i'w gar e,
dy gartref di

Enwau

Mae enwau benywaidd unigol ((E) enwau sy'n dechrau â 'll' a 'rh') yn treiglo ar ôl

- 'r / y e.e. wrth y **dd**erbynfa / y ci a'r **gath**
- un (ben) e.e. un **f**asged ac un **l**long

Mae enwau'n treiglo ar ôl

- 'yn' / 'n' ((E) enwau sy'n dechrau â 'll' a 'rh'), e.e. Mae e'n **f**achgen tal.
Roedd hi'n **rheolwr** banc.
- ar ôl 'neu' e.e. ci neu **gath**
- ar ôl 'dacw', 'dyma', 'dyna', 'wele', e.e. Dyma lun **pert**.
- ar ôl 'sut?' e.e. Sut **ddyn** oedd e?
- ar ôl 'pa?' e.e. Pa lyfr **brynaist** ti?
- mewn cyfarchiad e.e. **Gyfeillion**, **Blant**!

Berfau

- ar ôl 'a' *who, whom, that, which, whether*, e.e. y bachgen a **redodd** y ras
- ar ôl 'pw' a 'beth' e.e. Pwy **welsoch** chi?
- ar ôl 'pan', e.e. pan **ddaw** e
- ar ôl 'ni', 'na', 'oni' ((E) enwau sy'n dechrau â 'c', 'p', 't'), e.e. Ni **welais** i'r ffilm.
- dechrau brawddeg negyddol ((E) enwau sy'n dechrau â 'c', 'p', 't') e.e. **Ddarllenon** nhw ddim.
- ar ddechrau cwestiwn ar ôl 'a' e.e. A **ddarllenon** nhw?
- gwrthrych berf gryno heb y fannod e.e. Pryna**is** lyfr
- berfenwau ar ôl 'neu' e.e. rhedeg neu **gerdded**

Rhoi sglein ar

IAITH

Y TREIGLAD
MEDDAL

C

Dim T.M. mewn berf ar ôl
'yn', e.e. yn **canu**, yn **darllen**

Rydyn ni'n defnyddio'r fannod gyda llawer o afiechydon

y clefyd melyn	<i>jaundice</i>
y fogfa	<i>asthma</i>
y dwymyn	<i>fever</i>
y ddannoedd	<i>toothache</i>
y ffliw	<i>influenza</i>
y frech Almaenig	<i>German measles</i>
y frech goch	<i>measles</i>
y frech wen	<i>smallpox</i>
y pas / pâr	<i>whooping cough</i>
yr eryr	<i>shingles</i>
brech yr ieir	<i>chicken-pox</i>
clefyd y gwair	<i>hay fever</i>
twymyn y gwair	<i>hay fever</i>
llid yr ymennydd	<i>meningitis</i>
llid yr ysgyfaint	<i>bronchitis</i>

OND, dydyn ni ddim yn defnyddio'r fannod o flaen

- annwyd
- peswch

HEFYD, dydyn ni ddim yn defnyddio'r fannod os yw'r afiechyd yn cynnwys rhan o'r corff

- clust dost / pigyn clust
- cefn tost
- pen tost / cur pen
- llwnc tost / gwddw tost / dolur gwddw.

Y fannod = *the, a, an*

Does dim gair Cymraeg am *a* nac *an*, e.e. *a man* = dyn (unrhyw ddyn - mae e'n amhendant).

Yn y Gymraeg mae tair ffurf i'r fannod bendant (*the* yn Saesneg):

- y o flaen pob cytsain ond 'h', e.e. y ci
- yr o flaen pob llafariad a 'h', e.e. yr afal, yr haul
- 'r ar ôl gair sy'n gorffen mewn llafariad, e.e. mynd i'r tŷ.

©

Mae trefn geiriau'n wahanol yn y Gymraeg, felly

a library ticket - tocyn llyfrgell
a book club - clwb llyfrau

Rydyn ni'n defnyddio'r fannod o flaen:

- pob eitem mewn rhestr, e.e. **y** bachgen **a'r** ferch, **y** llyfrau, **y** papurau **a'r** cyfrifiaduron
- tymhorau'r flwyddyn, e.e. **y** gwanwyn, **yr** hydref
- enwau rhai gwyliau, e.e. **y** Nadolig, **y** Sulgwyn, **y** Pasg
- rhai enwau lleoedd, e.e. **Yr** Wyddgrug, **Y** Barri
- llawer o enwau gwledydd, e.e. **Yr** Aifft, **Yr** Eidal, **Yr** Alban OND cofiwch, does dim angen y fannod gyda Lloegr, Cymru, Iwerddon, Ewrop, America
- rhai enwau mynyddoedd a moroedd, e.e. **Yr** Wyddfa, **Y** Môr Tawel, **OND** dydyn ni ddim yn defnyddio'r fannod o flaen môr os oes enw gwlad neu le ar ddiwedd yr enw, e.e. Môr Hafren.

Dydyn ni ddim yn defnyddio'r fannod o flaen:

- enwau afonydd, e.e. afon Teifi, **OND Yr** Iorddonen, **Y** Fenai.

Sylwch!

Mae dau enw yn yr ymadroddion hyn ond mae'r drefn yn wahanol yn y Gymraeg a Saesneg.

tad y bachgen *the boy's father*

athrawes y merched *the girls' teacher*

yr ardd flodau *the flower garden*

fffenest y siop *the shop window*



Mae'r 'the' a'r 'of' yn diflannu yn y Gymraeg.

Weithiau, rydyn ni'n defnyddio'r fannod yn y Gymraeg pan does dim bannod yn Saesneg, e.e.

i'r gwaith	<i>to work</i>
i'r ysgol	<i>to school</i>
i'r eglwys	<i>to church</i>
o'r ysbyty	<i>from hospital</i>
yn y dref	<i>in town</i>
yn y golwg	<i>in view</i>
yn y gwely	<i>in bed</i>

Rydyn ni hefyd yn defnyddio'r fannod wrth siarad am rai dulliau teithio, e.e.

ar y bws	<i>by bus</i>
yn y car	<i>by car</i>
ar y trê'n	<i>by train</i>
yn y tacsï	<i>by taxi</i>



Y Presennol *is / are*

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Rydw i / Rwyf i / Dw i	Dydw i ddim / Dw(yf) i ddim	Ydw i?	Wyt, rwyf ti	Nac wyt, dwyt ti ddim
Rwyf ti	Dwyt ti ddim	Wyt ti?	Ydw, rydw i	Nac ydw, dydw i ddim
Mae e / o	Dydy e / o ddim	Ydy e / o?	Ydy, mae e / o	Nac ydy, dydy e / o ddim
Mae hi	Dydy hi ddim	Ydy hi?	Ydy, mae hi	Nac ydy, dydy hi ddim
Rydyn ni	Dydyn ni ddim	Ydyn ni?	Ydyn, rydyn ni	Nac ydyn, dydyn ni ddim
Rydych chi	Dydych chi ddim	Ydych chi?	Ydw, rydw i Ydyn, rydyn ni	Nac ydw, dydw i ddim Nac ydyn, dydyn ni ddim
Maen nhw / Maent hwy	Dydyn nhw ddim	Ydyn nhw?	Ydyn, maen nhw	Nac ydyn, dydyn nhw ddim

Rydw i + wedi = *I have*
 Dydy hi ddim + wedi = *She hasn't*
 Ydych chi + wedi = *Have you?*
 Maen nhw + wedi bod = *They have been*

Yr Amherffaith *was / were*

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Roeddwn i	Doeddwn i ddim	Oeddwn i?	Oeddet, roedd et ti	Nac oedd et, doedd et ti ddim
Roedd et ti	Doedd et ti ddim	Oedd et ti?	Oeddwn, roeddwn i	Nac oeddwn, doeddwn i ddim
Roedd e / o	Doedd e / o ddim	Oedd e / o?	Oedd. roedd e / o	Nac oedd, doedd e / o ddim
Roedd hi	Doedd hi ddim	Oedd hi?	Oedd. roedd hi	Nac oedd, doedd hi ddim
Roedden ni	Doedden ni ddim	Oedden ni?	Oedden, roedden ni	Nac oedden, doedden ni ddim
Roeddech chi	Doeddech chi ddim	Oeddech chi?	Oeddwn, roeddwn i Oedden, roedden ni	Nac oeddwn, doeddwn i ddim Nac oedden, doedden ni ddim
Roedden nhw	Doedden nhw ddim	Oedden nhw?	Oedden, roedden nhw	Nac oedden, doedden nhw ddim

Roeddwn i + wedi = *I had*
 Doedd hi ddim + wedi = *She hadn't*
 Oeddech chi + wedi = *Had you?*
 Roedden nhw + wedi bod = *They had been*

Rhoi sglein ar
IAITH

Y FERF (I)

Y Dyfodol <i>shall / will</i>				
Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Bydda i	Fyddda i ddim	Fyddda i?	Byddi, byddi di	Na fyddi, fyddi di ddim
Byddi di	Fyddi di ddim	Fyddi di?	Byddda, byddda i	Na fyddda, fyddda i ddim
Bydd e / o	Fydd e / o ddim	Fydd e / o?	Bydd, bydd e / o	Na fydd, fydd e / o ddim
Bydd hi	Fydd hi ddim	Fydd hi?	Bydd, bydd hi	Na fydd, fydd hi ddim
Byddwn ni	Fyddwn ni ddim	Fyddwn ni?	Byddwn, byddwn ni	Na fyddwn, fyddwn ni ddim
Byddwch chi	Fyddwch chi ddim	Fyddwch chi?	Byddda, byddda i Byddwn, byddwn ni	Na fyddda, fyddda i ddim Na fyddwn, fyddwn ni ddim
Byddan nhw	Fyddan nhw ddim	Fyddan nhw?	Byddan, byddan nhw	Na fyddan, fyddan nhw ddim

Bydda i + wedi = *I will have*

Fydd hi ddim + wedi = *She won't have*

Fyddwch chi + wedi = *Will you have?*

Fyddan nhw + wedi bod = *Will they have been?*

Byddwn i + wedi = *I would have*

Fyddai hi ddim + wedi = *She wouldn't have*

Fydddech chi + wedi = *Would you have?*

Fyddan nhw + wedi bod = *Would they have been?*


Mewn rhai ardaloedd mae pobl yn dweud

Baswn i Mae T.M. ar
Baset ti ddechrau'r
Basai e / o cwestiwn a'r
Basai hi negyddol, e.e.
Basen ni Faset ti?
Basech chi Fasen nhw ddim.
Basen nhw

Yr Amodol (<i>would</i>)				
Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Byddwn i	Fyddwn i ddim	Fyddwn i?	Byddet, byddet ti	Na fyddet, fyddet ti ddim
Byddet ti	Fyddet ti ddim	Fyddet ti?	Byddwn, byddwn i	Na fyddwn, fyddwn i ddim
Byddai e / o	Fyddai e / o ddim	Fyddai e?	Byddai, byddai e / o	Na fyddai, fyddai e / o ddim
Byddai hi	Fyddai hi ddim	Fyddai hi?	Byddai, byddai hi	Na fyddai, fyddai hi ddim
Bydden ni	Fyddni ni ddim	Fyddni ni?	Bydden, bydden ni	Na fydden, fydden ni ddim
Byddech chi	Fydddech chi ddim	Fydddech chi?	Byddwn, byddwn i Bydden, bydden ni	Na fyddwn, fyddwn i ddim Na fydden, fydden ni ddim
Bydden nhw	Fyddni nhw ddim	Fyddni nhw?	Bydden, bydden nhw	Na fydden, fydden nhw ddim

Ar gyfer *if* yn Saesneg rydyn ni'n defnyddio

pe bawn i / petawn i pe baen ni / petaem ni
pe baet ti / petaet ti pe baech chi / petaech chi
pe bai / petai e / o pe baen nhw / petaen nhw
pe bai hi / petai hi



Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Dylwn i	Ddylwn i ddim	Ddylwn i?	Dylet, dylet ti	Na ddylet, ddylet ti ddim
Dylet ti	Ddylet ti ddim	Ddylet ti?	Dylwn, dylwn i	Na ddylwn, ddylwn i ddim
Dylai e / o	Ddylai e / o ddim	Ddylai e / o?	Dylai, dylai e / o	Na ddylai, ddylai e / o ddim
Dylai hi	Ddylai hi ddim	Ddylai hi?	Dylai, dylai hi	Na ddylai, ddylai hi ddim
Dylen ni	Ddylen ni ddim	Ddylen ni?	Dylen, dylen ni	Na ddylen, ddylen ni ddim
Dylech chi	Ddylech chi ddim	Ddylech chi?	Dylwn, dylwn i Dylen, dylen ni	Na ddylwn, ddylwn i ddim Na ddylen, ddylen ni ddim
Dylen nhw	Ddylen nhw ddim	Ddylen nhw?	Dylen, dylen nhw	Na ddylen, ddylen nhw ddim

Dylwn i + fod wedi = *I should have*

Ddylai hi ddim + bod wedi bod = *She shouldn't have been*



T.M. ar ddechrau'r negyddol a'r cwestiwn

Hoffwn i + fod wedi
= *I would have liked*

Hoffai hi ddim + bod wedi bod

= *She wouldn't have liked to have been*

Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Hoffwn i	Hoffwn i ddim	Hoffwn i?	Hoffet, hoffet ti	Na hoffet, hoffet ti ddim
Hoffet ti	Hoffet ti ddim	Hoffet ti?	Hoffwn, hoffwn i	Na hoffwn, hoffwn i ddim
Hoffai e / o	Hoffai e / o ddim	Hoffai e / o?	Hoffai, hoffai e / o	Na hoffai, hoffai e / o ddim
Hoffai hi	Hoffai hi ddim	Hoffai hi?	Hoffai, hoffai hi	Na hoffai, hoffai hi ddim
Hoffen ni	Hoffen ni ddim	Hoffen ni?	Hoffen, hoffen ni	Na hoffen, hoffen ni ddim
Hoffech chi	Hoffech chi ddim	Hoffech chi?	Hoffwn, hoffwn i Hoffen, hoffen ni	Na hoffwn, hoffwn i ddim Na hoffen, hoffen ni ddim
Hoffen nhw	Hoffen nhw ddim	Hoffen nhw?	Hoffen, hoffen nhw	Na hoffen, hoffen nhw ddim

Mae T.M. ar ôl y gosodiad a'r ateb cadarnhaol,
e.e. Dylwn i dalu. Hoffai, hoffai hi brynu.
Does dim T.M. ar ôl 'ddim', 'wedi',
e.e. Hoffwn i ddim talu.
Ddylen nhw ddim bod wedi gadael.



Cadarnhaol	Negyddol	Cwestiwn	Ateb Cadarnhaol	Ateb Negyddol
Gallwn i	Allwn i ddim	Allwn i?	<i>Gallet, gallet ti</i>	<i>Na allet, allet ti ddim</i>
Gallet ti	Allet ti ddim	Allet ti?	<i>Gallwn, gallwn i</i>	<i>Na allwn, allwn i ddim</i>
Gallai e / o	Allai e / o ddim	Allai e / o?	Gallai, gallai e / o	Na allai, allai e / o ddim
Gallai hi	Allai hi ddim	Allai hi?	Gallai, gallai hi	Na allai, allai hi ddim
Gallen ni	Allen ni ddim	Allen ni?	Gallen, gallen ni	Na allen, allen ni ddim
Gallech chi	Allech chi ddim	Allech chi?	<i>Gallwn, gallwn i</i> <i>Gallen, gallen ni</i>	<i>Na allwn, allwn i ddim</i> <i>Na allen, allen ni ddim</i>
Gallen nhw	Allen nhw ddim	Allen nhw?	Gallen, gallen nhw	Na allen, allen nhw ddim

Gallwn i + fod wedi = *I could have*

Allai hi ddim + bod wedi bod = *She couldn't have been*

Yr Amherpersonol

- Rydyn ni'n defnyddio'r amherpersonol pan dydyn ni ddim yn gwybod pwy sy'n gwneud y weithred.
- Yn y presennol a'r dyfodol rydyn ni'n defnyddio'r terfyniad 'ir', e.e. Cynhelir disgo diwedd tymor wythnos nesaf.
- Yn y gorffennol rydyn ni'n defnyddio'r terfyniad 'wyd', e.e. Trefnwyd cyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.
- Yn y negyddol rydyn ni'n defnyddio 'ni' o flaen cytseiniaid a 'nid' o flaen llafariad. Mae 'ni' yn achosi T.LI. mewn berfau sy'n dechrau â 'p', 't', 'c' a T.M. mewn berfau sy'n dechrau â 'b', 'd', 'g', 'll', 'm', 'rh'.

Ni welwyd y llyfr.
Ni chlywir y llais.

Dim treigladau ar ôl
y terfyniad amherpersonol, e.e.
Trefnwyd croeso arbennig.
Gwerthir dillad yn y siop.

Y Gorchmynnol

- Ar gyfer 'chi' rydyn ni'n ychwanegu 'wch' at fôn y ferf + T.M. e.e. Darllenwch lyfr.
- Ar gyfer 'ti' rydyn ni'n ychwanegu 'a' at fôn y ferf + T.M. e.e. Darllena lyfr.
- Ar gyfer y negyddol, rydyn ni'n rhoi 'Peidiwch â' (chi) neu 'Paid â' (ti) o flaen berfenw, e.e. Paid â darllen,

OND

- ⇒ mae'r â > **ag** o flaen llafariad, e.e. Paid ag yfed y dŵr.
- ⇒ mae'r â yn achosi T.LI. e.e. Peidiwch â chanu.

Rhoi sglein ar
IAITH

Y FERF (II)

Dyma'r llythrennau sy'n newid
c > ch
p > ph
t > th

ar ôl 'a' *and*, e.e. ci a **ch**ath

ar ôl 'a' mewn gorchmynion negyddol, e.e. Peidiwch â **ch**anu.

ar ôl 'tua', 'â' a 'gyda' *with*, e.e. tua **ph**ump o'r gloch

ar ôl 'tri' a 'chwe', e.e. tri **che**ffyl, chwe **che**iniog

ar ôl 'ei' benywaidd *her*, e.e. ei **the**ulu hi

ar ôl 'i'w' *to her*, e.e. i'w **th**ŷ hi

ar ôl 'na', e.e. oedolion na **ph**lant

ar ôl 'â' a 'na' wrth gymharu ansoddeiriau, e.e. mor bell â **Ph**yllheli, yn bellach na **Ch**aerdydd

ffurfiau negyddol berfau cryno, e.e. **ch**lywais i ddim, **ph**rynan nhw ddim

berfau ar ôl 'ni', 'na' ac 'oni', e.e. ni **ch**lywais, oni **th**aliff hi.

torrais fy mys â **ch**yllell

perthyn i'w **th**ad hi

Dw i ddim yn yfed te na **ch**offi.

Rwy'n deall na **ph**rynodd hi
ddillad newydd.

Rhoi sglein ar
IAITH

Y TREIGLAD
LLAES

Dyma'r llythrennau sy'n newid

c > ngh
p > mh
t > nh
g > ng
b > m
d > n

C

- yn > ym o flaen gair sy'n treiglo i 'm' neu 'mh', e.e. **ym** Mangor, **ym** mharti Tomos
- yn > yng o flaen gair sy'n treiglo i 'ng' neu 'ngh', e.e. **yng** Nghernyw, **yng** ngolau'r car.

saith mlwydd oed

pum mlynedd

ar ôl 'fy', e.e. fy **ng**hyfeiriad i

ar ôl 'yn' *in*, e.e. yn **Nh**refynwy

blwydd, blynedd a diwrnod ar ôl pum, saith, wyth, naw, deng, deuddeng, pymtheng, deunaw, ugain, deugain, trigain, can.

deugain niwrnod

